

2023/24

# Adroddiad Effaith

Rhoi'r grym i bobl godi eu llais
ac atal troseddu.

Hollol ddienw.
Bob tro.

CrimeStoppers.

Speak up. Stay safe.



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| 3 | Croeso gan ein Cadeirydd |
| 4 | Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol |
| 5 | Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a’n gwerthoedd |
| 6-7 | Cyflawni ein strategaeth |
| 8-9 | Achosion go iawn |
| 10-14 | Ysgogi gwybodaeth o ansawdd |
| 16-19 | Cysylltu â phob cymuned |
| 20-21 | Meithrin ymddiriedaeth yn ein gwasanaeth |
| 23-24 | Un elusen, un tîm, gweithio’n well gyda’n gilydd |
| 25 | Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol |
| 26 | Crimestoppers mewn rhifau |
| 27 | Uchafbwyntiau ariannol |
| 28 | Datganiad yr Archwilydd |
| 29-30 | Diolch i’n partneriaid a’n cefnogwyr |
| 31 | Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol |

# Croeso gan ein Cadeirydd



**Arglwydd Ashcroft KCMG PC**
Cadeirydd Bwrdd Ymddiriedolwyr Crimestoppers

Mae Crimestoppers ar flaen y gad wrth herio difaterwch, sy'n caniatáu i droseddwyr ffynnu os na roddir sylw iddo, wrth i gymunedau ddioddef. Mae ein helusen yn cynnig gobaith.

## Mae cefnogaeth y cyhoedd ar gyfer Crimestoppers yn wirioneddol ysbrydoledig

Mewn hinsawdd o ddiffyg ymddiriedaeth ac ofn, mae Crimestoppers mewn sefyllfa unigryw, gan gynnig ffordd ddiogel i bobl godi eu llais am droseddu yn hytrach na chadw'n dawel.

Rydym oll yn cael cyfnodau yn ein bywyd lle y mae angen gwneud penderfyniadau anodd mewn amgylchiadau anodd – ac mae hyn yn wir ar yr achlysuron hynny pan fyddwn wedi bod yn dyst i droseddu neu pan fyddwn yn gwybod rhywbeth am droseddu. I nifer, mae meddwl am roi eu manylion personol a chael cyswllt gyda'r heddlu yn un cam yn ormod.

Mae Crimestoppers ar flaen y gad wrth herio difaterwch, sy'n caniatáu i droseddwyr ffynnu os na roddir sylw iddo, wrth i gymunedau ddioddef. Mae ein helusen yn cynnig gobaith.

Wrth i dros 720,000 o bobl gysylltu â ni y llynedd, rydym wedi dangos, trwy gyfrwng y gweithgarwch ymgysylltu cywir, y gallwn helpu pobl i oresgyn amheuon sy'n eu hatal rhag cymryd y camau angenrheidiol.

**Cysyniad cadw pobl yn ddienw, a brofwyd**
Pan fûm yn dwyn perswâd ar arweinwyr gwleidyddol, arweinwyr yr heddlu ac arweinwyr busnes – yn ôl yn y 1980au – i'm helpu i greu gwasanaeth a fyddai'n addo cadw pobl yn ddienw, ni allwn fyth fod wedi dychmygu pa mor llwyddiannus fyddai Crimestoppers UK.

Mae ein Canolfan Gyswllt, ein Rheolwyr Rhanbarthol a Chenedlaethol, ein staff cefn swyddfa a'n cannoedd o wirfoddolwyr lleol yn dangos eu hymroddiad a'u hymrwymiad rhyfeddol i'r cyhoedd bob dydd.

Mae'r tudalennau nesaf yn cynnwys amrediad o straeon sy'n dangos gwaith ein helusen, sy'n helpu i gadw pobl, cymdogaethau a gweithleoedd yn ddiogel yn y pen draw.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

# Croeso gan ein Prif Swyddog Gweithredol



**Mark Hallas OBE**
Prif Weithredwr,
Crimestoppers

> Mae'r wybodaeth a roddir i ni mewn ffordd ddienw yn rhoi stop ar droseddwyr, gan sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

# Swm uwch nag erioed o'r blaen o adroddiadau yn cael eu hanfon i'r heddlu, sef 200,000

Rydym wedi cyrraedd carreg filltir newydd, sef ein bod wedi trosglwyddo dros 200,000 o adroddiadau o ansawdd uchel ymlaen i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae'r twf hwn yn adleisio'r cynnydd yn nifer yr adroddiadau a rannwyd gyda'n partneriaid masnachol dros y blynyddoedd diwethaf – wrth iddynt gael gwybodaeth sy'n helpu i ddiogelu busnesau, gweithwyr a'u cwsmeriaid.

Mae ein statws fel elusen a'n haddewid i gadw pobl yn ddienw yn annog pobl i adrodd yr hyn y maent wedi'i weld, yr hyn y maent yn ei wybod neu'r hyn y maent wedi'i glywed.  Mae'n helpu i atal troseddu heb unrhyw ganlyniadau i'r unigolyn o gwbl.

Mae'r wybodaeth a roddir i ni mewn ffordd ddienw yn rhoi stop ar droseddwyr, gan sicrhau cyfiawnder i ddioddefwyr a'u teuluoedd.

**Gwasanaethu'r cyhoedd, cynorthwyo'r heddlu**
Rydym wedi lansio Gwasanaeth Cenedlaethol Adrodd am Lygredigaeth a Cham-drin yr Heddlu (14 Mawrth 2024), y bu cryn ddisgwyl amdano, ac mae'n cael llif cyson o gysylltiadau bob dydd.  Mae ein helusen yn prysur ddod yn ddarparwr dewis cyntaf i wasanaethau statudol i gyd-fynd â'n gwaith gyda'r sector masnachol.

Yn olaf, hoffwn ategu canmoliaeth Arglwydd Ashcroft i bawb sydd wedi defnyddio neu sydd wedi cefnogi amrediad unigryw o wasanaethau ein helusen. Mae llwyddiant Crimestoppers i raddau helaeth o ganlyniad i'n rhwydwaith helaeth o bartneriaethau: o Gomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs), heddluoedd, y Swyddfa Gartref, darparwyr tai, cyrff masnachol a diwydiant, brandiau adnabyddus ac elusennau eraill.  Rydym yn gwneud pwynt o weithio gyda sefydliadau sy'n rhannu ein gwerthoedd.

Trwy hyrwyddo Crimestoppers ac atgoffa pawb bod ganddynt ddewis amgen y gallant ymddiried ynddo, gallwn gydweithio'n well er mwyn ein cadw i gyd yn ddiogel rhag y niwed a'r gofid calon a achosir gan droseddu.

# Ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd

## Gweledigaeth – pam ein bod yn bodoli

Mae gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw.

## Cenhadaeth – yr hyn a wnawn i gyflawni ein gweledigaeth

Rydym yn elusen annibynnol sy'n rhoi'r grym i chi godi eich llais ac atal troseddu mewn ffordd hollol ddienw.

Pwy bynnag ydych chi, ble bynnag yr ydych yn byw, o gymunedau i gwmnïau.

Dros y ffôn ac ar-lein, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn.

Rydym yn rhannu cyngor hefyd ynghylch sut i ddiogelu'r bobl a'r cymunedau yr ydych yn ymboeni amdanynt rhag troseddu, fel y gall pawb deimlo'n ddiogel.

## Gwerthoedd – yr egwyddorion sy'n tywys y ffordd yr ydym yn ymddwyn

Yn Crimestoppers, credwn mai pobl sy'n rhoi stop ar droseddu. Mae ein cymuned o staff a gwirfoddolwyr yn byw ein gwerthoedd bob dydd:

- **Rydym yn ymboeni –** credwn bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw. Gall troseddu beri cryn ofn, felly rydym yn cynnig gobaith.
- **Rydym yn gynhwysol –** nid ydym yn barnu pobl. Rydym yma i bawb y mae ein hangen arnynt. Gallwn newid cymunedau er gwell trwy gydweithio.
- **Gellir ymddiried ynom –** rydym yn elusen ddibynadwy, gonest ac annibynnol. Rydym yn gweithredu mewn ffordd gyfrifol ac nid ydym fyth yn datgelu manylion unrhyw un sy'n cysylltu â ni.
- **Rydym yn benderfynol –** rydym yn ymrwymo ein holl ymdrechion i sicrhau newid cadarnhaol. Rydym yn credu yn ein gallu i gyflawni.

---

## Ein rôl

Rydym yn chwalu'r rhwystrau sy'n tawelu pobl a chymunedau trwy gynnig lle amgen i bobl, a lle y gallant ymddiried ynddo, i gyfleu gwybodaeth am droseddu heb unrhyw edliw. Mae'r wybodaeth y byddwn yn ei chael ac yn ei throsglwyddo yn sicrhau y caiff bywydau eu hachub, bod troseddwyr yn cael eu stopio, a bod dioddefwyr a'u hanwyliaid yn cael cyfiawnder.

## Ein heffaith

Bob blwyddyn, rydym yn helpu i ddatrys ac atal miloedd o droseddau.

**721,162**

Cysylltodd bron i dri chwarter miliwn o bobl â ni y llynedd.

**209,380**

Anfonom dros 200,000 darn o wybodaeth at yr heddlu.

**27,920**

Ac anfonom ragor o wybodaeth at ystod eang o bartneriaid statudol, masnachol a thrydydd sector eraill.

**27,676**

Mae'r heddlu yn dweud wrthym ein bod wedi helpu i ddatrys ac atal dros 27,000 o droseddau. Gan nad yw'r holl heddluoedd yn cynnig adborth cynhwysfawr, gallwn amcangyfrif bod ein heffaith gymaint dwywaith â hyn a mwy.

## Cyflawni ein strategaeth

# Rhoi blaenoriaeth i'r cymunedau sy'n dioddef fwyaf oherwydd troseddu

Mae ein holl weithgareddau yn canolbwyntio ar gyflawni'r amcanion canlynol:

- Gwella ansawdd y wybodaeth y bydd Crimestoppers yn ei chael – mae hon yn aml yn wybodaeth na all yr heddlu ei chael neu nad yw'r heddlu yn debygol o'i chael yn wirfoddol ac yn uniongyrchol.
- Meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaeth – trwy adrodd stori ein helusen am obaith. Ers i ni gael ein ffurfio ar ddiwedd y 1980au, rydym wedi cadw ein haddewid i gadw'r miliynau o bobl sydd wedi ymddiried eu gwybodaeth am droseddu gyda ni, yn ddienw.
- Denu mwy o bobl a sefydliadau i'n cynorthwyo. Mae hyn yn rhoi hwb i'n hymdrechion i gysylltu â phobl ym mhob cymuned ar draws y DU.



# Cyflawni ein strategaeth

## Cyrraedd cynulleidfaoedd allweddol

Targedu grwpiau a chymunedau y mae angen ein gwasanaethau arnynt fwyaf, sy'n golygu annog a pherswadio'r rhai sy'n llai tebygol o siarad â'r heddlu yn uniongyrchol, i gysylltu â Crimestoppers.

- Rydym wedi cyflwyno parthau bychain ond wedi'u targedu mewn cymunedau sy'n dioddef problemau troseddu cymhleth, ond lle nad oes gan bobl fawr iawn o ymddiriedaeth yn yr heddlu. Mae'r parthau hyn yn caniatáu i ni ddwyn dull gweithredu aml-asiantaeth ynghyd dros gyfnod hwy, gan gydweithio gyda'r gymuned fel ei bod yn fwy diogel i bawb.
- Mae ein gwasanaethau 'Codi Llais' mewn partneriaeth â'r sector cyhoeddus a diwydiant yn caniatáu i bobl adrodd am gamymddwyn mewn ffordd ddienw, gan arwain at weithleoedd gwell a gwell ymddiriedaeth mewn gwasanaethau cyhoeddus.

## Creu cymuned o'r rhai sy'n rhoi stop ar droseddu

Pobl yw ein heiriolwyr a gallant adrodd ein stori am helpu i roi stop ar droseddu a datrys troseddau, gan aros yn hollol ddienw.

- Mae ein cynllun Cenhadon Cymunedol, dan arweiniad gwirfoddolwyr, wedi aildanio rhwydwaith o sefydliadau llawr gwlad sy'n cyflwyno Crimestoppers i'r rhai hynny sydd fwyaf tebygol o fod angen ein gwasanaeth.
- Rydym yn gweithio gydag ystod eang o weithwyr proffesiynol y mae ganddynt berthnasoedd llawn ymddiriedaeth gyda phobl ifanc. Rydym yn cynnig ffyrdd iddynt siarad gyda phobl ifanc am roi stop ar droseddu.
- Mae busnesau yn cynorthwyo ein helusen mewn sawl ffordd, gan gynnwys defnyddio gwybodaeth ddienw i roi stop ar droseddu sy'n effeithio ar eu staff a'u cwsmeriaid.

## Creu cymuned o'r rhai sy'n rhoi stop ar droseddu

Mae straeon yn ein helpu i gysylltu â chynulleidfaoedd allweddol. Maent yn meithrin ymddiriedaeth yn ein gwasanaeth trwy ddangos effaith codi llais a chan ddangos y gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud.

- Rydym yn defnyddio astudiaethau achos dienw go iawn yn ein deunydd cyfathrebu, gan gyfleu mewn ffordd fyw y grym sydd gan wybodaeth ddienw i sicrhau newid cadarnhaol.
- Rydym yn croesawu ymwelwyr i'n Canolfan Gyswllt, gan gynnwys y cyfryngau, i weld drostynt eu hunain sut yr ydym yn cadw ein 'hysbyswyr' yn ddiogel.
- Rydym yn cynnal ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol sy'n ategu grym cadw pobl yn ddienw er mwyn sicrhau gwybodaeth o ansawdd ar gyfer yr heddlu a phartneriaid.

## Un tîm, yn gweithio'n dda

Mae cydweithio er mwyn ceisio cyflawni'r un nodau, gan ddefnyddio'r profiad a gynigir gan bawb, a datblygu ein pobl, oll yn hanfodol er mwyn i'n helusen fod yn effeithlon ac yn effeithiol.

- Rydym wedi gwella cynhyrchiant ein Canolfan Gyswllt, gan uwchraddio ein systemau technegol, ac rydym yn parhau i ddatblygu sgiliau ein staff a'r cyfleoedd ar eu cyfer.
- Mae staff wedi cyfrannu at ein polisi am amrywiaeth ac maent wedi ymgysylltu ag amrediad o hyfforddiant, o iechyd meddwl a chymorth cyntaf i ddiogelu.

Ymatebodd gwirfoddolwyr mewn ffordd gadarnhaol i'n harolwg ymgysylltu a'n gwaith i wella iechyd ein cymunedau lleol, fel y gallant fod yn effeithiol wrth gynorthwyo'r bobl a'r ardaloedd y maent ein hangen fwyaf.

## Achosion go iawn

# Gwneud gwahaniaeth – straeon gwir, dienw

**Mae'r sampl hwn o droseddau y llwyddwyd i'w datrys yn dangos gwir effaith ein helusen.**

**Newidiwyd y manylion er mwyn cadw'r bobl dan sylw yn ddienw.**

### Tynnu arfau tanio oddi ar y stryd

Mae argaeledd gynnau a'r defnydd a wneir ohonynt gan gangiau troseddol wedi bod yn cynyddu mewn sawl rhan o'r wlad. Ar ôl i Crimestoppers gael gwybodaeth, atafaelwyd dyrnaid o arfau tanio anghyfreithlon yn ystod cyrch, ac yn dilyn hyn, arestiwyd a chyhuddwyd dyn.

### Dal dyn peryglus a oedd yn cam-drin, ar ôl iddo fod ar ffo am sawl blwyddyn

Gall effeithiau cam-drin domestig fod yn helaeth a gallant bara am oes, ac maent yn cynnwys iselder, gorbryder a phroblemau iechyd meddwl. Roedd troseddwr mynych a oedd yn beryglus iawn i fenywod wedi bod ar ffo am sawl blwyddyn. Roedd wedi parhau i droseddu wrth iddo osgoi cyfiawnder. Diolch i wybodaeth Crimestoppers, fe'i daliwyd gan yr heddlu a bu'n rhaid iddo wynebu canlyniadau ei weithredoedd o'r diwedd.

### Cyffuriau, dargyfeirio mesurydd ac arestiadau mewn tŷ tyfu

Cysylltwyd â ni a chawsom fanylion fferm ganabis bosibl. Bu'r llu lleol yn ymchwilio, gan ddarganfod gwerth cannoedd ar filoedd o bunnoedd o gyffuriau, ynghyd â threfniant dwyn ynni a allai fod yn angheuol. Gwnaethpwyd arestiadau niferus.

### Ofnau am bedoffilia mewn perthynas â dyn oedd yn cael cyswllt gyda phlant

Rhoddwyd gwybodaeth fanwl i Crimestoppers am ddyn y credwyd ei fod yn beryglus iawn i blant. Roedd yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol a llwyfannau eraill i gymysgu gyda ac ymgysylltu gydag unigolion dan oed. Arestiwyd y dyn ac atafaelwyd ei holl ddyfeisiau gan yr heddlu.

### Pryder am bâr o gŵn XL Bully peryglus

Roedd preswylwyr ar stryd mewn maestref dawel yn byw mewn ofn ar ôl i gymdogion weld pâr o gŵn XL Bully a oedd yn ymddwyn yn afreolus. Roeddent hefyd yn ymwybodol o'r ffaith bod y cŵn yn cael eu hesgeuluso ac nid oedd modd eu cerdded yn ddiogel.

Atafaelwyd y cŵn er mwyn cynnal ymchwiliadau pellach.

### Canfod gwaith cynhyrchu cyffuriau mewn siop wag

Cawsom adroddiadau bod siop fawr yn cael ei defnyddio i gynhyrchu cyffuriau. Roedd preswylwyr wedi sylwi ar bobl yn ymweld ar amseroedd rhyfedd o'r dydd a'r nos. Ar ôl cael ein gwybodaeth, atafaelodd yr heddlu gyffuriau a oedd yn werth dros hanner miliwn o bunnoedd, a chanfod offer fel goleuadau tyfu pwerus, trawsgludwyr a ffaniau trydan. Arestiwyd pobl yn y fan a'r lle.

### Adfeddiannu gynnau wrth ddal deliwr

Roedd deliwr cyffuriau peryglus a threisgar yr oedd ganddo hanes hir o droseddu, yn credu ei fod yn gallu parhau i ymddwyn fel hyn heb wynebu cosb. Ond ar ôl i Crimestoppers roi gwybodaeth hanfodol, cynhaliwyd cyrch ar yr eiddo, ac atafaelwyd cyffuriau, arfau a bwledi. Arestiwyd a chyhuddwyd y dyn.

### Dedfryd o garchar i ddyn ar ôl iddo ladd ei gymar yn dilyn blynyddoedd o gam-drin

Roedd dyn a oedd wedi dianc ar ôl llofruddio ei gymar wedi gobeithio osgoi cyfiawnder, er gwaethaf erchyllterau ei droseddau. O ganlyniad i wybodaeth a gafwyd gan aelod o'r cyhoedd a gysylltodd â'n helusen, daliwyd y llofrudd a rhoddwyd dedfryd oes iddo.

### Helpu i ddiogelu ein ffiniau

Mae ein helusen yn trosglwyddo gwybodaeth i Lu'r Ffiniau yn rheolaidd. Ymhlith y mathau o lwyddiannau yw atafaelu symiau enfawr o gynhyrchion cig a channoedd ar filoedd o sigaréts a

# Achosion go iawn



**“Fel Swyddog Ymchwilio Uwch, hoffwn gyfleu fy diolch gan nad ydw i’n siŵr y byddem wedi dal yr unigolyn mor gyflym, os o gwbl, heb eich help chi”**

**Adborth dienw gan ymchwilydd blaenllaw yr heddlu**

phecynnau tybaco ffug. Darganfuwyd miloedd o bunnoedd heb eu datgan hefyd, mae plant agored i niwed wedi cael eu diogelu ac mae arfau wedi cael eu hatafaelu, ac mae hyn oll o ganlyniad i’n gwybodaeth ni.

## Gyrrwr yn cymell yr heddlu i’w ymlid er gwaethaf y ffaith bod plant yn y cerbyd

Penderfynodd dyn oedd â phroblemau iechyd difrifol a oedd yn ei atal rhag gyrru, i yrru ta beth. Roedd pobl leol wedi ei weld yn gyrru yn gyflym iawn gyda’i deulu yn y car yn rheolaidd. Nid oedd trwydded nac yswiriant ganddo. Fodd bynnag, ar ôl i Crimestoppers gael gwybod am ei ddiofalwch parhaus, penderfynodd yr heddlu ymyrryd. Llwyddont i’w ddal yn torri’r gyfraith ac fe’i arestiwyd ar unwaith.

## Atafaelu cyffuriau a oedd yn werth miliynau o bunnoedd ag un ergyd

Mae Crimestoppers yn cymryd gwybodaeth gan bawb am bob math o droseddau. Un enghraifft yw pan gawsom wybodaeth gan ffynonellau lluosog am weithgarwch amheus a oedd yn ymwneud â grŵp mawr o ddynion a oedd yn mynd a dod o eiddo bob awr o’r dydd. Ar ôl i ni gysylltu â’r heddlu, cynhaliwyd cyrch mewn adeilad, atafaelwyd cyffuriau a oedd yn werth miliynau, darganfuwyd trefniant dwyn ynni, ynghyd ag achos posibl o dorri amodau mewnfudo. Gweithredodd yr awdurdodau yn gyflym, gan arwain at garcharu’r rhai a oedd yma yn gyfreithlon, ac mae eraill yn aros i gael eu hallgludo.

## Most Wanted – canmoliaeth gan yr heddlu

“Fel Swyddog Ymchwilio Uwch, hoffwn gyfleu fy niolch gan nad ydw i’n siŵr y byddem wedi dal yr unigolyn mor gyflym, os o gwbl, heb eich help chi.”


“Roeddwn yn dymuno diolch i chi am eich holl gymorth gyda’r mater hwn ac mae’n rhaid i mi ddweud, wir i chi, nad ydw i’n credu y byddem wedi ei ddal heb y wobr hon. Heb os, roedd rhoi pwysau arno, law yn llaw â rhai o’n tactegau heddlu, wedi arwain at ei benderfyniad i ildio. Diolch o galon i chi, rydw i’n gwerthfawrogi eich holl help. Mae wedi bod yn bleser.”

# Ysgogi gwybodaeth o ansawdd

## Nifer yr adroddiadau yn dyblu mewn degawd

Am y tro cyntaf erioed, rydym wedi anfon dros 200,000 o adroddiadau at heddluoedd y DU yn ystod y flwyddyn. Cafodd pob heddlu fwy o wybodaeth gennym yn ystod 2023-24 o'i chymharu â llynedd. Gwelwyd cynnydd cyffredinol o 9%.

Dros y 10 mlynedd ddiwethaf, mae cyfanswm y wybodaeth o ansawdd uchel wedi mwy na dyblu.




Mae'n anodd nodi'r rhesymau pendant dros y cynnydd hwn, ond mae'n debygol o fod yn gyfuniad o'r ffactorau canlynol:

- Mae ymgyrchoedd wedi'u targedu ar lefel leol a chenedlaethol yn cyrraedd y cynulleidfaoedd hynny sy'n llai tebygol o siarad gyda'r heddlu yn uniongyrchol.
- Rhwydwaith llawn o reolwyr sy'n gweithio yn y rhanbarthau a'r cenhedloedd ar draws y DU yn ymateb i anghenion cymunedol lleol.
- Rhwystredigaeth mewn rhai rhannau o'r wlad am y gwasanaeth a ddarparir gan rif ffôn 101 yr heddlu ar gyfer achosion nad ydynt yn rhai brys.
- Cynnydd yng nghyfanswm y troseddau cofnodedig ar gyfer rhai mathau o droseddau.
- Gostyngiad yn hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn yr heddlu.

### Beth mae'r cyhoedd yn ei ddweud wrthym?

Rydym yn cymryd gwybodaeth am bob trosedd ac nid yw'r gymhareb o ran y mathau o droseddau yn newid mewn ffordd arwyddocaol o un flwyddyn i'r llall.

Roedd y newidiadau nodedig yn ystod 2023-24 fel a ganlyn:

- Gwelwyd nifer yr adroddiadau am droseddau cerbyd bron yn treblu, o 709 o adroddiadau i 2,041.
- Gwelwyd nifer yr adroddiadau am yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau yn codi 25% i 49,000 o adroddiadau.
- Gwelwyd nifer yr adroddiadau am droseddau mewnfudo a throseddau ar y ffin yn codi 58% i 5,584 o adroddiadau.

## Ymgyrch canabis yn arwain at gynnydd o 16% yn nifer yr adroddiadau

Gofynnwyd i ni ddatblygu ymgyrch bartneriaeth ar y cyd â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu a heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr. Arweiniodd yr ymdrech hon ar y cyd at gynnal ymgyrch ymwybyddiaeth ar-lein ar gyfer y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant eiddo, gan gynnig arwyddion sy'n rhybuddio ar gyfer eiddo sy'n cael eu heffeithio gan weithgarwch tyfu canabis.

Fe'i cynhaliwyd rhwng canol mis Mai a chanol mis Mehefin 2023, ac roedd yn ceisio helpu pobl i adnabod y drosedd, gan annog y rhai sydd â gwybodaeth i siarad â Crimestoppers mewn ffordd ddienw.

Llwyddodd yr ymgyrch i sicrhau cynnydd o 16% yn nifer yr adroddiadau a anfonir at heddluoedd am weithgarwch tyfu canabis, o'i gymharu â'r mis cyn y lansiad. Yn ogystal, yn ystod yr ymgyrch, gwelwyd cynnydd o 13% mewn gweithgarwch adrodd cyffredinol am bob math o drosedd i Crimestoppers.

Mae'r dull hwn o gael dull cydgysylltiedig wrth ymgyrchu ar lefel genedlaethol yn rhoi hwb i effeithiolrwydd wrth greu ymwybyddiaeth a chymell gweithredu gan y cyhoedd.

### Pwnc dadleuol yn ysgogi ymgysylltu

Amlygom ddioddefwyr caethwasiaeth fodern a llafur gorfodol sy'n destun camfanteisio er mwyn tyfu'r cyffur. Mae cartrefi mewn cymunedau sy'n cael eu heffeithio mewn perygl pellach o ddioddef tân o ganlyniad i weithgarwch dwyn ynni mewn eiddo a ddefnyddir fel tai tyfu.

Roedd y neges wedi taro tant gyda chynulleidfaoedd, yn enwedig yr effaith ar ddioddefwyr.

Gwelwyd cyfraddau ymgysylltu uchel iawn â'r ymgyrch, yn enwedig ar gyfryngau cymdeithasol, y tu hwnt i'r gyfradd y mae ymgyrchoedd yn ei sicrhau fel arfer. Roedd llawer o hyn wedi ysgogi dadl iach ar draws adrannau sylwadau yr hysbysebion amrywiol a gynhaliwyd ar draws llwyfannau cyfryngau cymdeithasol lluosog.

### Ychwanegu elfen ddynol

Amlygodd y rhai a rannodd eu profiad o fyw gerllaw neu drws nesaf i eiddo sy'n cael ei ddefnyddio fel fferm ganabis yr effaith negyddol ar y gymdogaeth, y gymuned ac arnyn nhw.

O ystyried y ddadl fywiog am ganabis, roedd yr ymgyrch hwn yn dangos bod modd codi'r mater a bod modd amlygu'r niwed a achosir wrth sicrhau gwybodaeth hanfodol gan y cyhoedd ar yr un pryd.

# Ysgogi gwybodaeth o ansawdd

## Crimestoppers yn gwneud ffyrdd yn fwy diogel dros y Nadolig

Dros gyfnod yr ŵyl ym mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd Crimestoppers ymgyrch chwe wythnos a oedd yn canolbwyntio ar leihau risgiau yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau.

Roedd yn hysbysu cynulleidfaoedd o'r terfynau alcohol cyfreithlon a pheryglon gyrru ar ôl cymryd cyffuriau presgripsiwn.

Roedd yr alwad i weithredu yn annog pobl i roi gwybodaeth hollbwysig a fyddai'n helpu i gynorthwyo ymchwiliadau'r heddlu er mwyn helpu i leihau nifer y marwolaethau ar y ffyrdd y gellid eu hosgoi.

### Darparu cenedlaethol, hwb rhanbarthol

Roedd y negeseuon a'r gwaith celf yn canolbwyntio ar yr ŵyl a chyrraedd gartref erbyn y Nadolig (a oedd wedi'i anelu'n benodol at gyflawnwyr). I'n prif gynulleidfa, y thema oedd sicrhau y gall anwyliaid deithio gartref yn ddiogel i agor eu hanrhegion Nadolig.

Cyflwynwyd yr ymgyrch ar draws llwyfannau cymdeithasol cenedlaethol Crimestoppers, ac fe'i ategwyd trwy ein cyfrifon rhanbarthol a lleol ar draws y DU.

Gwelwyd Instagram yn perfformio'n well na Facebook, gymaint â dros 360%, gan lwyddo i sicrhau canlyniad clicio trwyddo o 15,600, ac roedd Facebook wedi perfformio'n well nag Instagram o ran cyrhaeddiad, gymaint â 105%.

Roedd gweithgarwch rhannu pellach ar lwyfannau cymdeithasol gan heddluoedd, asiantaethau'r llywodraeth, elusennau a phartneriaid corfforaethol wedi helpu i gyrraedd cynulleidfa ehangach.

Gwelwyd y dudalen ar y we dros 2,400 gwaith a soniwyd am yr ymgyrch ar BBC Radio 4 ac ar wasanaethau radio lleol y BBC, a rhoddwyd sylw iddo mewn darpariaethau newyddion ar-lein amrywiol.




## Herio aflonyddu rhywiol mewn mannau cyhoeddus

Amlygodd ein hymgyrch cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod a Merched ym mis Ionawr 2024 y mathau o aflonyddu rhywiol sy'n bodoli, gan annog y rhai sy'n ei weld yn digwydd i adrodd i'n helusen am y cyflawnwyr.

Aflonyddu rhywiol yw ymddygiad digroeso o natur rhywiol, sy'n tarfu ar urddas rhywun, ac sy'n peri iddynt deimlo dan fygythiad, wedi'u sarhau neu eu diraddio.

Llwyddodd yr ymgyrch hwn dros fis i gyrraedd bron i filiwn o bobl ar gyfryngau cymdeithasol.

Roedd ymchwil a gomisiynwyd gan Crimestoppers ac a gynhaliwyd gyda Phrifysgol Suffolk ym mis Ionawr 2023 yn cynnwys arolwg gyda'r canfyddiad syfrdanol bod tua un o bob chwech unigolyn wedi cael eu profiad cyntaf o aflonyddu rhywiol mewn man cyhoeddus pan oeddent yn 10 oed yn unig, neu hyd yn oed yn iau.

Os profir hwn wyneb yn wyneb neu ar-lein, gall gael effeithiau difrifol a hirhoedlog ar ei ddioddefwyr.

Bydd Crimestoppers yn parhau i amlygu'r mater hollbwysig hwn, er mwyn gwella dealltwriaeth pobl ac er mwyn helpu i ysgogi newid.

## Ysgogi gwybodaeth o ansawdd

# Adroddiadau am fewnfudo anghyfreithlon a chaethwasiaeth fodern yn codi gymaint â dau draean yn ystod yr ymgyrch

Bob dydd, mae miloedd o bobl agored i niwed sydd wedi cael eu smyglo i'r DU yn cael eu gorfodi i weithio am ychydig dâl, neu ddim tâl o gwbl.

Yn 2023, roedd dros 17,000 o ddioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern a atgyfeiriwyd gennym i'r Swyddfa Gartref. Credir bod tanadrodd sylweddol am y math hwn o drosedd er gwaethaf y ffaith – fel yr ydym yn pwysleisio yn ein negeseuon – ei fod yn digwydd o flaen pobl ac mewn mannau cyhoeddus.

### Elwa ar ddioddefaint

Roedd y niwed a achosir gan gangiau troseddol sy'n ymwneud â masnachu pobl a chamfanteisio arnynt yn rhan ganolog o'n hymgyrch genedlaethol am droseddau mewnfudo a chaethwasiaeth fodern.

Mae troseddwyr yn gwneud symiau ariannol mawr iawn trwy ddwyn pobl i mewn i'r wlad mewn ffordd anghyfreithlon mewn lorïau, awyrennau bychain a chychod. Ni fydd rhai o'r rhai sy'n cael eu masnachu fyth yn cyrraedd y wlad hon, ac mae cannoedd wedi colli eu bywydau yn y Sianel dros y ddegawd ddiwethaf. Mae hyn yn ychwanegol i drychinebau megis y marwolaethau mewn lori yn Essex, lle darganfuwyd 39 o bobl yn farw yn nhrelar lori rhewi gymalog.

Ar ôl cyrraedd yma, bydd mewnfudwyr anghyfreithlon yn gweithio dan amodau gwael ac fe'u gorfodir i gymryd rhan mewn gweithgarwch gwyngalchu arian, tyfu canabis, cardota, dwyn o siopau a'r fasnach rhyw. Yn aml, cânt eu gorfodi neu eu cymell i weithio a chânt eu rheoli gan 'gyflogwr'. Mae cam-drin meddyliol neu gorfforol neu fygythiadau yn gyffredin.

### Gwneud gwahaniaeth

Yn gyffredinol, gwelodd Crimestoppers gynnydd o 53% yn nifer yr adroddiadau am fewnfudo anghyfreithlon a chaethwasiaeth fodern wrth gymharu 2023 gyda'r flwyddyn flaenorol.

Mae'n arwyddocaol bod ein hymgyrch cenedlaethol (24 Mai – 7 Mehefin 2023) wedi arwain at gynnydd syfrdanol o 88% mewn cysylltiadau, gan brofi sut y gall ein helusen ysgogi diddordeb pobl a'u hannog, pan fo hynny'n briodol, i weithredu.



# Ysgogi gwybodaeth o ansawdd



## Mae cydweithredu yn allweddol er mwyn creu 'Stryd Ddiogel'

Amcangyfrifr y bu dros 1.5 miliwn o 'droseddau cymdogaeth' yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2023. Mae hyn yn ôl Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr.

Gwelir bod dwyn, lladrata a byrgleriaeth yn parhau, sy'n effeithio ar ddioddefwyr ond hefyd, sy'n cael effaith donnog ar yr ardal gyfagos.

Er mwyn annog pobl i ystyried sut y gallant ddiogelu eu cartref, rydym wedi cynnal cyfres o ymgyrchoedd Stryd Ddiogel. Mae ein 'Stryd Ddiogel' ffuglennol yn hyrwyddo diogelwch y cartref a diogelwch cymunedol, ac fe'i chyflwynir mewn partneriaeth â Ring a chynllun Gwarchod Cymdogaeth.

Y thema gyffredinol yw ein bod yn gallu gwella cymunedau yn well gyda'n gilydd.






## Ysgogi gwybodaeth o ansawdd




# Manteisio ar fyd busnes er mwyn rhoi hwb i lwyddiant Stay Energy Safe

Cynhelir Stay Energy Safe gan Crimestoppers, ac mae'n cynnig ffordd ddienw i bobl adrodd am achosion o ddwyn ynni ac amharu ar fesuryddion. Sefydlwyd y bartneriaeth ym mis Medi 2016, ac roeddem wrth ein bodd o glywed bod y contract i'n helusen ddarparu'r gwasanaeth hanfodol hwn wedi cael ei adnewyddu am ddwy flynedd bellach ym mis Mawrth 2024.

Ers sefydlu'r bartneriaeth, mae nifer yr adroddiadau wedi cynyddu mewn ffordd ddramatig, o tua 2,600 yn 2017-18 i dros 11,000 yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Dros y saith mlynedd, mae hyn yn cynrychioli cynnydd o 325%.

Mae sylw a roddwyd yn y cyfryngau ar ddechrau'r argyfwng ynni wedi helpu i gyfeirio pobl i wefan Stay Energy Safe.

Mae gweithgarwch marchnata yn hanfodol er mwyn diogelu pobl rhag y drosedd beryglus hon, ac fe'i gwelwyd yn parhau yn ystod 2023-24, gyda ffocws ar Google, hysbysebu ar y radio ac mewn podlediadau, yn ogystal ag Optimeiddio Peiriannau Chwilio ac allgymorth digidol.

Gyda'i gilydd, mae hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r risgiau difrifol a achosir gan y drosedd hon, yn ogystal â'r arwyddion i gadw golwg amdanynt er mwyn adnabod y drosedd. Mae hefyd yn annog y rhai sydd â gwybodaeth i godi eu llais mewn ffordd ddienw, er mwyn cadw eu hanwyliaid, eu ffrindiau, eu teuluoedd, eu cydweithwyr a'u cymdogaethau yn ddiogel.

### Rôl newydd Rheolwr Ymgysylltu Rhwydwaith

Gan gydweithio'n agos gyda RECCo (y Cwmni Cod Ynni Manwerthu), lansiom brosiect i sicrhau ein bod yn ymgysylltu â'r bobl a'r sefydliadau cywir er mwyn codi ymwybyddiaeth o beryglon dwyn ynni.

Mae hyn wedi arwain at recriwtio Rheolwr Ymgysylltu Rhwydwaith newydd, sy'n estyn allan i nifer o wahanol gwmnïau a chyrff aelodaeth, diwydiant a masnach perthnasol. Y nod yw helpu i ledaenu negeseuon Stay Energy Safe, er mwyn sicrhau bod pobl mewn cynulleidfaoedd newydd a pherthnasol iawn – er enghraifft peirianwyr nwy a thrydan, busnesau manwerthu a lletygarwch a landlordiaid a thenantiaid – yn deall pa mor beryglus y gall tarfu â'r cyflenwad ynni fod, yr hyn i gadw golwg amdano, a sut y gallant helpu i'w adnabod a rhoi stop arno.

Mae RECCo yn amcangyfrif na chaiff tua 250,000 o achosion dwyn ynni eu hadrodd bob blwyddyn. Mae Stay Energy Safe yma i fod yn arf ataliol ac er mwyn helpu i nodi'r drosedd, fel y gellir sicrhau bod mesuryddion nwy a thrydan yn ddiogel. I gael gwybod mwy, trowch at stayenergysafe.co.uk.

**Suspect Energy Theft?**

Learn how to spot the tell-tale signs of energy theft.

STAY ENERGY SAFE

Visit: www.stayenergysafe.co.uk

Powered by CrimeStoppers.



# Concerned about wrongdoing in the workplace?

## Partner with Crimestoppers.

Our service makes whistleblowing accessible to everyone.

**crimestoppers-uk.org/partner-with-us**

Registered Charity No. 1108687 (England and Wales) No. SC037960 (Scotland)
Company No. 05382856

**CrimeStoppers.**

**0800 555 111**

100% anonymous. Always.

# Cysylltu â phob cymuned

## Mwy o ymddiriedaeth nag erioed o'r blaen yn Crimestoppers yng Nghymru

O fis Ebrill 2023 i fis Mawrth 2024, gwelodd Crimestoppers yng Nghymru weithgarwch ymgysylltu sylweddol a chanlyniadau trawiadol.

Anfonwyd 10,297 o adroddiadau i heddluoedd yng Nghymru, sy'n gynnydd o 9% o un flwyddyn i'r llall.

Ymgysylltodd tîm Fearless â dros 27,000 o bobl ifanc, a'u grymuso i godi eu llais am droseddau sy'n effeithio ar y cymunedau lle y maent yn byw ac yn mynd i'r ysgol neu'r coleg.

Cynhaliom wyth o ymgyrchoedd rhanbarthol a naw o ymgyrchoedd cenedlaethol ar draws Cymru, a gyfrannodd at 66 o arestiadau ac a ddenodd 148,000 o ymwelwyr i'r wefan.

Gwelwyd y lefel ymgysylltu fwyaf gyda'r ymgyrch am yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau, a lwyddodd i sicrhau 622,000 o argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol.

### Most Wanted yng Nghymru

Mae Most Wanted Crimestoppers yn parhau i ffynnu yng Nghymru.

Mae un stori lwyddiannus yn cynnwys dau unigolyn peryglus iawn a ildiodd i'r heddlu ar ôl ymddangos. Mae hyn yn amlygu effeithiolrwydd cynnwys pobl ar restr Most Wanted Crimestoppers ac ar draws ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.




Ymgysylltwyd â
**27,000**
o bobl ifanc

**622,000**
o argraffiadau ar gyfryngau cymdeithasol o'r ymgyrch gyrru ac yfed a gyrru dan ddylanwad cyffuriau

## Hwb ymgysylltu i Fearless

Dyfarnwyd £20,000 i Crimestoppers Gogledd Iwerddon gan Gynllun Cymunedol Adfer Asedau i gynnal ymgyrch mewn ardaloedd lle y gwelir lefelau uchel camfanteisio a bygythiadau gan gangiau troseddol sy'n defnyddio trais ac arfau.

Mae hyn wedi cael effaith fawr ar gymunedau a theuluoedd, wrth i bobl ifanc gael eu cymell i gyflawni gweithgareddau fel delio cyffuriau yn erbyn eu hewyllys.

Cytunwyd gyda'r Adran Cyfiawnder y byddem yn cynnal ymgyrch Fearless dros gyfnod o 3 mis.


Roedd yr asedau creadigol yn cynnwys creu sgwrs Snapchat rhwng dau berson ifanc. Roedd y negeseuon yn amlygu'r ffaith bod modd rhoi gwybodaeth am droseddu trwy ein helusen heb ofni rhywun yn dial arnynt.

**28,756**
o olygon tudalen â'n hymgyrch Fearless yng Ngogledd Iwerddon dros gyfnod o 3 mis

Cynnydd o
**95%**
yn nifer yr adroddiadau i Crimestoppers

Roedd canlyniadau ein hymgyrch Fearless yng Ngogledd Iwerddon yn drawiadol, wrth i nifer y golygon tudalen godi o 26,359 i 28,756 dros y 3 mis, a nifer yr adroddiadau i Crimestoppers godi 95%.

Am y tro cyntaf erioed, ar ôl yr ymgyrch, roedd Gogledd Iwerddon ymhlith y tri lleoliad uchaf yn y DU o ran ardaloedd lle y gwelir y gweithgarwch ymgysylltu mwyaf gyda Fearless.



# Cysylltu â phob cymuned




## Pobl ifanc yn siapio ymgyrch cyffuriau Fearless yr Alban

Cydgynhyrchir holl ymgyrchoedd Fearless yr Alban gan bobl ifanc, ar gyfer pobl ifanc. Mae hyn yn cynnig persbectif hollbwysig am y negeseuon a'r dull y mae eu hangen er mwyn ymgysylltu â chynulleidfa ifanc yn y ffordd orau.

Wrth ystyried cyffuriau, roedd pobl ifanc yn nodi'n glir; roeddent yn dymuno clywed gan arbenigwyr – arbenigwyr yn ôl profiad.

Mae camddefnyddio cyffuriau yn yr Alban yn aml wedi cael ei drafod yng nghyd-destun cofnodi nifer y marwolaethau a achosir gan gyffuriau, dedfrydau o garchar a niwed. Beth am adfer? A oedd hynny yn bosibilrwydd?

### O'u persbectif nhw

Roedd pobl ifanc yn teimlo nad oedd unrhyw un fyth yn sôn am y bobl sy'n llwyddo i gyrraedd yr ochr draw. Dywedont wrthym, pe byddent yn gallu credu y gallai eu ffrind adfer o fod yn ddibynnol ar gyffuriau, y byddent yn fwy tebygol o godi eu llais er mwyn sicrhau help iddynt neu er mwyn adrodd am y gangiau cyffuriau sy'n camfanteisio arnynt. Roedd angen gobaith.

Gan weithio gyda Mentoriaid Cymheiriaid o wasanaethau cyfiawnder troseddol, yr oedd ganddynt brofiad ymarferol, Prosiect VOW a Rhaglen Canlyniadau Cadarnhaol, cynhyrchwyd podlediad fideo gan Fearless a rannwyd gyda phobl ifanc ar draws yr Alban ar ffurf clipiau byr ar Instagram, Snapchat a TikTok.

Gan fyfyrio am eu straeon adfer personol nhw, soniodd y mentoriaid am eu taith nhw a sut y maent yn helpu eraill nawr sy'n camddefnyddio sylweddau ac yn eu helpu trwy'r system cyfiawnder troseddol.

### Fearless ar draws y wlad

Ym mis Mawrth, roeddem wrth ein bodd i groesawu'r Gweinidog dros Gyffuriau ac Alcohol, Christina McKelvie, i Ysgol Uwchradd Craigroyston, Caeredin, i lansiad ein hymgyrch cyffuriau a fyddai'n para mis.

Yn ogystal â'r ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol, cynhaliodd Fearless ddigwyddiadau allgymorth mewn dinasoedd ar draws yr Alban a chyhoeddodd cyfres o flogiau ar thema camddefnyddio sylweddau ar ein gwefan. Anelwyd hwn at oedolion sy'n gofalu am neu sy'n gweithio gyda phobl ifanc o'r Ganolfan Cyfiawnder Plant a Phobl Ifanc (CYCJ) a Sefydliad DSM.

Yn ystod yr ymgyrch, roedd dros 26,000 o bobl ifanc wedi troi at dudalen lanio yr ymgyrch, lle'r oeddent yn gallu dysgu mwy am effaith cyffuriau, trosglwyddo gwybodaeth neu gael cymorth gan asiantaethau partner.

**Dywedodd Kevin, Mentor Cymheiriaid ym Mhrosiect VOW yng Nghaeredin, yn y podlediad:**
"Dylai'r gwaelod fod wedi fy lladd i. Peidiwch ag aros nes i chi gyrraedd y gwaelod. Efallai na fyddwch yn goroesi ar y gwaelod. Gweithredwch nawr.

"Dysgwch o fy nghamgymeriadau i – peidiwch ag aros i ddysgu gan eich rhai chi."

**Dywedodd Donald, Mentor Cymheiriaid arall ym Mhrosiect VOW, am addewid yr elusen i gadw pobl yn hollol ddienw:**
"Nid yw'n ymwneud â rhoi pobl i mewn – mae'n ymwneud ag achub bywydau.

"Mae'n ymwneud â helpu pobl a chynorthwyo pobl a cheisio eu tynnu o'r fan honno."

**Dywedodd Pat, Mentor Cymheiriaid yn Rhaglen Canlyniadau Cadarnhaol yn Glasgow:**
"Rydw i wedi bod yn adfer ers blynyddoedd nawr, ac rydw i'n gweld dynion arall, dynion iau, yn mynd ati i adfer.

"Nid oes gwahaniaeth beth yw eich cefndir na pha mor bell i lawr yr ysgol yr ydych chi wedi mynd...Mae adfer ar gael i unrhyw un."

# Cysylltu â phob cymuned

## Herio mythau am gam-drin domestig mewn cymunedau o Ddwyrain Ewrop

Mewn gwaith ymchwil a gynhaliwyd yn 2022, amlygwyd problem arwyddocaol ynghylch cydnabod cam-drin domestig mewn cymunedau Pwylaidd.

Ni fydd nifer o fenywod yn adnabod arwyddion perthynas gamdriniol ac yn aml, byddant yn gwneud esgusodion dros ymddygiad eu partner, a'i briodoli i ffactorau fel yfed alcohol. Mae'r arfer hwn o normaleiddio camdriniaeth yn arwain at ddiffyg dealltwriaeth a diffyg ymddiriedaeth yn y gwasanaethau sydd ar gael.

Nid yw'r rhwystrau hyn yn rhai unigryw i'r gymuned Bwylaidd, ac maent yn gyffredin ar draws nifer o gymunedau eraill o Ddwyrain Ewrop.

### Blaenoriaethu Boston

Mae Boston yn Swydd Lincoln yn cynnwys un o'r poblogaethau uchaf o bobl o Ddwyrain Ewrop yn y DU. Mae'n hanfodol bod y cymunedau hyn yn gallu manteisio ar y gwasanaethau angenrheidiol.

Gan gydnabod yr angen hwn, lansiodd Crimestoppers ymgyrch chwe wythnos a oedd yn ceisio chwalu'r mythau ynghylch cam-drin domestig a gwella gweithgarwch ymgysylltu gyda chymunedau o Ddwyrain Ewrop. Rydym yn defnyddio asedau wedi'u cyfieithu, Fan Hysbysebu yn ystod diwrnodau marchnad ac mewn gêm Bêl-droed Dinas Lincoln, a chynhaliom ddigwyddiadau cymunedol. Llwyddodd ein hymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol i gyrraedd dros 220,000 o bobl ifanc ac oedolion.

O ganlyniad i'r ymdrechion hyn, arweiniodd yr ymgyrch at 690 o atgyfeiriadau at wasanaethau lleol, yr oedd 16 ohonynt gan bobl o Ddwyrain Ewrop. Bu 759 o olygon ar dudalen lanio yr ymgyrch. Mae'r fenter yn tanlinellu pwysigrwydd gwaith allgymorth wedi'i dargedu ac sy'n sensitif mewn ffordd ddiwylliannol wrth roi sylw i gam-drin domestig a chynorthwyo'r rhai mewn angen.

Mae'r ymgyrch hwn yn rhan o ymdrechion parhaus gan y gwasanaethau cam-drin domestig lleol i sicrhau bod pawb, beth bynnag fo eu cefndir, yn gallu manteisio ar yr help y mae ei angen arnynt i adnabod sefyllfaoedd camdriniol, a dianc ohonynt.

### Taflen hawdd ei darllen newydd Crimestoppers

Mae bod yn agored ac yn hygyrch i bawb yn bwysig i Crimestoppers, er mwyn i ni allu cynorthwyo pawb y mae angen iddynt gael ein gwasanaeth.

Mae chwalu'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag adrodd am droseddu yn rhywbeth y mae gan ein helusen ddegawdau o brofiad ohono.

Gan weithio gydag elusen genedlaethol Ymddiriedolaeth Pentref Camphill, mae gennym daflen hawdd i'w darllen nawr, sy'n esbonio pa wybodaeth y gellir ei rhoi i Crimestoppers mewn ffordd hollol ddienw. Cydgynhyrchwyd y daflen gydag oedolion sydd ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.



### Gweithio gyda Wolves

Mae Dinas Wolverhampton wedi bod yn agored i weithgarwch gan gangiau Llinellau Sirol yn ddiweddar.  Mae hyn o ganlyniad i gysylltiadau gyda Birmingham a mannau eraill, sy'n ei gwneud yn ddewis amlwg i gangiau cyfundrefnol i ddefnyddio'r seilwaith trafnidiaeth er mwyn symud cyffuriau o ddinasoedd mwy o faint i bentrefi, trefi ac ardaloedd mwy gwledig.

Gan weithio gyda'r Swyddog Diogelu Arweiniol yng Nghlwb Pêl-droed Wolverhampton Wanderers, bu modd i Crimestoppers ymgysylltu â staff y clwb a'r chwaraewyr yn ei Academi, gan ddarparu sesiynau Crimestoppers a Fearless wedi'u targedu.  Roedd y sesiynau yn amlygu perygl camfanteisio gan Linellau Sirol a mwy o ymwybyddiaeth o wasanaeth Crimestoppers a Fearless.

Cynigiodd y clwb hysbysebion am ddim ar sgrin fawr ar ddiwrnodau gêm yn Stadiwm Molineux, yn ystod gêm pan fyddai 31,000 yn bresennol, ynghyd â lle yn Ardal y Cefnogwyr lle y siaradom gyda dros 300 o bobl. Cynhaliom ymgyrch ar gyfryngau cymdeithasol ar yr un pryd, gan apelio am wybodaeth am Linellau Sirol ar y cyd â Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr.

# Cysylltu â phob cymuned

## Meithrin cydnerthedd mewn cymdogaethau sy'n cael eu niweidio fwyaf gan droseddu

Mae pobl sy'n byw mewn ardaloedd sy'n cael eu handwyo gan y lefelau troseddu uchaf, yn gwybod am yr effaith negyddol y gall hyn ei chael ar eu bywydau ac ar y gymuned ehangach. Yn aml, bydd ofn yn eu hatal rhag codi eu llais.

Mae menter Clear, Hold, Build yn dwyn ynghyd nifer o asiantaethau lleol o'r heddlu, cynghorau, grwpiau cymunedol ac elusennau eraill, gyda phwyslais ar leihau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr ardaloedd hynny. Mae'r rhaglen yn amlygu ffyrdd amgen o adrodd gwybodaeth, megis trwy ein helusen ni. Trwy weld yr heddlu yn gweithredu, a chodi ymwybyddiaeth o faterion troseddu, gall Crimestoppers helpu i annog y rhai sydd â gwybodaeth am droseddu i'w hadrodd.

Cynnydd o
**8%**
mewn gwybodaeth am fasnachu a chyflenwi cyffuriau

Cynnydd o
**33%**
mewn gwybodaeth am gyllyll ac arfau

Cafwyd
**9**
adroddiad am bobl y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt yn Barnet

### Ffocws ar Lundain, Swydd Efrog a Chanolbarth Lloegr

Rydym wedi cynnal ymgyrchoedd Clear, Hold, Build ar y cyd yn Bradford Moor yng Ngorllewin Swydd Efrog, ar Ystad Fairfield yn Buxton yn Swydd Derby ac yn Swydd Stafford, i enwi rhai yn unig.

Yn Llundain, yr ardal a dargedwyd oedd Ystad Parc Grahame, Barnet. Gweithiom gydag awdurdodau lleol, darparwyr tai, timau plismona bro, grwpiau ffydd a gofal iechyd i hyrwyddo ymgyrch dros bedair wythnos trwy gyfryngau cymdeithasol, dosbarthu taflenni a negeseuon/gwaith celf lleol.

Anfonwyd bron i 300 o adroddiadau at fiwro gwybodaeth Heddlu Llundain yn ystod yr ymgyrch ac ar ôl yr ymgyrch. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd ymgysylltu mewn ffordd effeithiol er mwyn creu effaith donnog sy'n arwain at newid cadarnhaol.

## Parthau Crimestoppers: Helpu i feithrin hyder y cyhoedd

Mae sut mae creu cymunedau diogel mewn ardaloedd lle y mae pobl yn anfodlon codi eu llais, yn gwestiwn cyffredin ymhlith gweithwyr proffesiynol a llunwyr polisi.

Mae gan ein helusen rôl allweddol i'w chyflawni yma gan bod gennym ddegawdau o brofiad o gysylltu gyda miliynau o bobl sy'n ei chael hi'n anodd gweithredu trwy adrodd yr hyn y maent yn ei wybod i'r heddlu.

Mae Parthau Crimestoppers wedi cael eu peilota ar draws y wlad. Fe'u cynlluniwyd i wella hyder mewn cymunedau lleol a helpu i atal troseddwyr.

Trwy gynnig diogelwch aros yn ddienw, rydym yn sianel hanfodol, gan gyfleu gwybodaeth gymunedol i fynd i'r afael â throseddu sy'n niweidio'r cymunedau hyn fwyaf.

### Canolbwyntio ar Swindon

Gosodom arwyddion a baneri ar bolion lampiau, trefnom fyrddau hysbysebu digidol a chyhoeddom erthygl yn y cylchgrawn drws-i-ddrws lleol. Rhoddwyd taflenni i bartneriaid mewn gwahanol ieithoedd, a mynychom ddigwyddiadau cymunedol i siarad ag aelodau'r cyhoedd. Trefnom hysbysebion ar gyfryngau cymdeithasol hefyd.

Yn ystod y 3 mis cyntaf, cawsom 143% yn fwy o adroddiadau gan ein hardaloedd a dargedwyd o'i gymharu â'r un cyfnod yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn llawer uwch na'r cynnydd o 8% a gawsom ar draws ardal gyfan Swindon a Wiltshire.

Cynnydd o **100%** mewn gwybodaeth ar gyfer New Parks, Thringstone, a Whitwick.

Cynnydd o **36%** ar gyfer Swydd Gaerlŷr gyfan o ran gwybodaeth am lofruddiaethau, arfau tanio, cyllyll, trais ac unigolion y mae'r heddlu yn chwilio amdanynt.

### Meithrin ymddiriedaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr

Cefnogir ymgyrch Parth Crimestoppers yn Wildmill, Pen-y-bont ar Ogwr yng nghalon de Cymru gan Gyngor Pen-y-bont ar Ogwr, ac fe'i lansiwyd yn gynnar ym mis Mawrth 2024.

Yn flaenorol, nid oedd ein helusen wedi cael unrhyw adroddiadau o'r ardal. Ers hynny, cafwyd nifer o adroddiadau o'r parth a mwy na dwsin o'r ardal uniongyrchol. Roedd y rhain yn ymwneud â masnachu cyffuriau, gyrru dan ddylanwad cyffuriau a throseddau rhywiol.

### Lansiad Swydd Gaerlŷr

Mae Bell Foundry yn Loughborough, New Parks, Thringstone, a Whitwick wedi cael eu dynodi yn Barthau Pobl, gan rymuso aelodau'r gymuned i gyfrannu at greu amgylcheddau byw mwy diogel, hapusach ac iachach. Un rhan allweddol o'r fenter hon yw Parthau Crimestoppers sy'n cynnwys arwyddion ar bostion lampau, canllawiau a pheilonau. Dosbarthwyd taflenni i bob aelwyd yn y parthau hyn, gan esbonio sut i adrodd am droseddu mewn ffordd ddienw.

# Meithrin Ymddiriedaeth a Hyder



## Partneriaethau: Blwyddyn o dwf syfrdanol

Mae ein tîm Twf Busnes a Chodi Arian yn cyflawni rôl hanfodol trwy godi arian y mae cryn angen amdano er mwyn caniatáu i'r elusen barhau i gyrraedd cymunedau ar hyd a lled y wlad. Bu'r flwyddyn ariannol hon yn rhagorol o ran twf.

Ym mis Mai 2023, newidiom enw'r adran o'r adran Datblygu Busnes i'r adran Twf y Busnes a Chodi Arian. Diben hyn oedd adlewyrchu rôl y tîm yn well o fewn yr elusen. Mae'n atgoffa ein holl bartneriaid, yn rhai presennol ac yn ddarpar bartneriaid, o'r ffaith eu bod nhw hefyd yn cynorthwyo pobl i godi eu llais a chadw'n ddiogel trwy weithio gyda Crimestoppers.

At ei gilydd ar draws y flwyddyn, llwyddom i adnabod, ymgysylltu gyda a chynefino dros 30 o gleientiaid newydd. Gan ddefnyddio ein hamrediad o wasanaethau, rydym wedi tyfu nifer o'n cleientiaid presennol mewn ffordd organig, ac rydym wedi lleihau ein lefel ymadael hyd yn oed ymhellach.

### Gwasanaethau Codi Llais

Yn dilyn adolygiad ysgytwol Nazir Afzal o Frigâd Dân Llundain tua diwedd 2022, aethom ati i lunio a lansio gwasanaeth newydd – Gwasanaeth Codi Llais FRS (Gwasanaethau Tân ac Achub).

Cydweithiom yn agos gyda Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân a Phrif Swyddogion Tân ar draws y wlad er mwyn cynllunio gwasanaeth a fyddai'n addas i'r diben, gan gynnig yr hyder i fwy o bobl yn y gwasanaethau tân i fynegi unrhyw bryderon mewn ffordd ddiogel. Er ei bod yn farchnad gystadleuol, llwyddwyd i recriwtio 14 o bartneriaid Tân ac Achub yn ystod y flwyddyn gyntaf, ac mae mwy i ddod.

Fel y byddwch chi eisoes wedi gweld efallai, roeddem wrth ein bodd o sicrhau'r tendr i redeg y Gwasanaeth Cenedlaethol Adrodd am Lygredigaeth a Cham-drin ar ran plismona yn y DU. Mae'r gwasanaeth yn parhau i fynd o nerth i nerth.

Ar y cyd â'r broses o lansio'r linell genedlaethol, nid yn unig y cadwom ein partneriaid llinell uniondeb yr heddlu presennol, ond ychwanegom chwe heddlu arall i'n portffolio. Llwyddom i gyflawni hyn yn wyneb cwestiynau heriol, gyda chymorth ein partneriaid yn Heddlu Llundain, yr oedd eu tystiolaeth ynghylch budd defnyddio llinellau mewnol ac allanol yn allweddol. Roedd Heddlu Llundain wedi lansio ei wasanaeth adrodd cyhoeddus y flwyddyn flaenorol, a oedd wedi sicrhau canlyniadau cryf.

Roeddem wedi parhau i dyfu ein gwasanaeth Rhannu Gwybodaeth ac ailgychwyn ein cydweithrediad gyda'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr (GLAA), gan rannu gwybodaeth berthnasol a gafodd ein Canolfan Gyswllt.

Rydym wedi dechrau gweithio gyda'r lluoedd arfog hefyd yn dilyn rhai cyfarfodydd llwyddiannus, ac rydym bellach yn rhannu gwybodaeth ar draws y tri gwasanaeth, gyda gwasanaeth adrodd uniondeb mewnol ar draws yr heddlu milwrol ym mhob gwasanaeth yn cael ei lansio yn fuan.

# Llwyfan cenedlaethol i wasanaeth newydd sy'n helpu i ddarganfod heddlu llwgr a chamdriniol

Yn dilyn cyfres o sgandalau a oedd yn ymwneud â heddweision, cafwyd trafodaeth genedlaethol am y ffordd o adfer ymddiriedaeth a hyder mewn cyrff gorfodi'r gyfraith ar draws y DU.

Er bod heddluoedd unigol yn gyfrifol am weithredu mesurau sy'n mynd i'r afael â'r materion anodd hyn mewn ffordd effeithiol, mae Crimestoppers yn cyflawni rôl hanfodol wrth helpu i nodi'r rhai sy'n cam-drin eu swydd o ymddiriedaeth.

Ym mis Mawrth 2024, lansiodd ein helusen Wasanaeth Cenedlaethol Adrodd am Lygredigaeth a Cham-drin yr Heddlu er mwyn cynnig ffordd i bobl adrodd gwybodaeth mewn ffordd ddienw neu gyfrinachol am heddwas, aelod o staff yr heddlu neu wirfoddolwr gyda'r heddlu y maent yn credu eu bod yn cymryd mantais o'u rôl neu'n ymddwyn mewn ffordd gamdriniol neu droseddol. Gallai'r cymhelliant dros wneud hyn fod yn ariannol neu'n rhywiol, neu efallai y caiff eu hymddygiad ei gymell gan gasineb neu ragfarn.

### Bu cyfraniad llinell gymorth Heddlu Llundain yn hanfodol

Syniad Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) a Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (APCC) oedd y gwasanaeth cenedlaethol. Dyfarnwyd y gwasanaeth i Crimestoppers yn dilyn proses gaffael ddwys. Mae'n tystio i lwyddiant llinell gymorth gychwynnol Heddlu Llundain, a oedd wedi dangos pwysigrwydd ac effeithiolrwydd y cysyniad.


Mae'r gwasanaeth hwn yn llwyddiant arwyddocaol i'r elusen o ran y gydnabyddiaeth ar gyfer ein gwaith hanfodol wrth gynorthwyo'r cyhoedd a'r heddlu.

Mae'n cyd-fynd â'n strategaeth i sicrhau ein bod yn ymgysylltu gydag endidau cenedlaethol mwy o faint, ac mae'n dangos sut y gall yr elusen helpu partneriaid i gyflawni eu rhaglenni diogelu a chodi llais.

NPCC National Police Chiefs' Council

Dywedodd Prif Gwnstabl Gavin Stephens, Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu:

**"Mae mwyafrif helaeth yr heddweision a'r staff yn gweithredu mewn ffordd broffesiynol a gydag uniondeb wrth gyflawni eu dyletswyddau i ddiogelu'r cyhoedd. Rhaid i ni gymryd camau cadarn i gael gwared ar y rhai sy'n gyfrifol am gamymddwyn o'r gwasanaeth plismona, am nawr ac am y dyfodol."**



# Meithrin ymddiriedaeth yn ein gwasanaeth

## Hyfforddiant ymwybyddiaeth FGM ar gyfer gweithwyr rheng flaen

Bu Crimestoppers a Grŵp Arferion Niwed Cudd Sussex yn cydweithio i ddarparu digwyddiad hyfforddiant ar-lein ar gyfer ymarferwyr rheng flaenorol yn benodol, sydd â phryderon am Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM) a niwed cudd arall mewn cymunedau ar draws Sussex.

Roedd y digwyddiad hwn yn cynnwys llu o ymarferwyr hyfforddedig a phrofiadol iawn ar lawr gwlad a fu'n rhannu eu harbenigedd wrth nodi pryderon, atgyfeirio a chynnig cymorth i'r rhai sydd wedi goroesi.

Roedd dros 130 o bobl wedi mynychu'r digwyddiad hwn ar-lein a chafwyd adborth gwych amdano, wrth i ymatebion i'r arolwg ar ôl y digwyddiad ddangos bod 99% o'r rhai a oedd wedi mynychu farnu bod y digwyddiad wedi bod 'yn ddefnyddiol iawn' gan sôn y byddent yn mynychu digwyddiad tebyg yn y dyfodol heb os.

**"Diddorol iawn trwy gydol y diwrnod cyfan. Roedd angerdd y siaradwyr yn amlwg, gan wneud popeth yn realiti, nid gwerslyfr yn unig. Tra chymeradwy. Diolch am ddarparu digwyddiad wedi'i drefnu'n dda a siaradwyr gwadd."**

**"Roedd y diwrnod yn cynnwys siaradwyr gwych ac roedd hi'n amlwg eu bod yn teimlo'n angerddol am eu maes arbenigol. Diwrnod diddorol iawn. Mawr obeithiaf y byddwch yn trefnu un arall gan fy mod i wedi dweud wrth fy nhîm pa mor wych ydyw!"**

**"Roedd hon yn sesiwn wych gyda siaradwyr diddorol. Mwynheais bob sesiwn."**

Adborth gan y sawl a fynychodd sesiwn hyfforddiant.

---




## Mwy o wasanaethau tân yn cofrestru ar gyfer Gwasanaeth Codi Llais FRS

Yn gynnar yn 2023, datblygodd Crimestoppers Wasanaeth Codi Llais FRS gyda'n partneriaid gwasanaeth tân mabwysiadu cynnar. Roedd hyn yn dilyn datgeliadau bod tystiolaeth o aflonyddu, gwahaniaethu a bwlio eang yn y gwasanaethau tân ac achub ar draws Lloegr.

Mae Codi Llais FRS yn cynnig lle diogel i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaethau tân ac achub ar draws y DU i drosglwyddo gwybodaeth – ar-lein a dros y ffôn – mewn ffordd ddienw neu gyfrinachol, ar gyfer adegau 'pan nad yw hi'n iawn' neu i godi llais am ymddygiad gwael.

Bellach, rydym yn gweithio gydag 16 o wasanaethau tân sydd wedi ychwanegu Codi Llais FRS fel haen ddiogelu arall ac er mwyn cynnig tawelwch meddwl i'w cydweithwyr.

Adborth gan Bennaeth Tân uwch:

**"Mae'n gwneud yr hyn a nodir yn y teitl. Mae'n cynnig gwerth am arian."**

# Un elusen, un tîm, gweithio'n well gyda'n gilydd



## Mae gwirfoddolwyr yn ein cysylltu gyda phob cymuned

Er 2020, rydym wedi bod yn gweithio ar elfennau a nodir yn ein Cynllun Gwirfoddoli Cenedlaethol.

Nod y cynllun oedd gwella'r profiad i wirfoddolwyr, o recriwtio ac ymsefydlu i offerynnau gwirfoddoli a chydnabod. Eleni, rydym wedi cwblhau rhan fwyaf y dyheadau yr aethom ati i'w cyflawni.

Roedd ein cynllun gwirfoddoli yn seiliedig yn rhannol ar arolwg o'r holl wirfoddolwyr, a gynhaliom unwaith eto eleni. Yn gyffredinol, mae'r darlun yn galonogol, gydag adborth yn dangos bod gwirfoddolwyr yn teimlo fel pe baent yn cael eu gwerthfawrogi fwyfwy, bod ganddynt gymhelliant a'u bod yn cael eu cynorthwyo mewn ffordd abl gan yr elusen.

Roedd cynnydd o 15% yn y niferoedd a oedd yn cadarnhau pa mor ddefnyddiol yw ein hofferynnau ar-lein er mwyn i wirfoddolwyr allu ymgysylltu â'u cymunedau yn uchafbwynt. Mae hwn yn adlewyrchiad da o effaith ein gwaith yn ystod y blynyddoedd yn y canol.

Rydym wedi cychwyn ar ein gwaith i asesu a gwella iechyd ein pwyllgorau gwirfoddolwyr – y grwpiau a arweinir yn lleol ac sydd wraidd cysylltu gyda phob cymuned. Gan weithio gydag arweinwyr gwirfoddol, rydym yn gosod cynlluniau a fydd yn trawsnewid pob ardal yn ôl yr angen. Bydd y gweithgarwch hwn yn cynnig sylfaen ar gyfer Cynllun Gwirfoddoli Cenedlaethol newydd hefyd, wrth i ni barhau i wella ein cefnogaeth ar gyfer ein holl wirfoddolwyr gwych.

## Gwobrau Gwirfoddolwyr 2024

Mae ein Gwobrau Gwirfoddolwyr yn gyfle gwych i arddangos gwaith anhygoel ein gwirfoddolwyr yn Crimestoppers, ledled y wlad.

- **Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn, a roddir er cof am Carolyn Randall:**
Enillwyr ar y cyd – Zafran Mohammed, Cadeirydd Pwyllgor Gorllewin Canolbarth Lloegr a Roy Marks, Cadeirydd Pwyllgor Durham a Darlington

"Nid yw'r geiriau 'ymrwymiad ac ymroddiad' yn ddigon i gyfleu angerdd a chymhelliant Zaf i ledaenu'r gair am y gwasanaethau gwych a ddarparir gan Crimestoppers yn ddyddiol".

"Mae Roy wedi datblygu rhwydwaith sylweddol. Ei angerdd dros gyflawni pethau a bod ar lawr gwlad yn siarad gyda phobl yw'r ffordd y mae'n teimlo y gall wneud y gwahaniaeth mwyaf".

- **Gwobr Pwyllgor y Flwyddyn:**
Pwyllgor Swydd Gaerloyw

- **Gwobr Gwirfoddolwr Ifanc:**
Hannah Curtis, Pwyllgor Llundain

- **Gwobr Arwr Di-sôn-amdanynt:**
Sarah Miles, Pwyllgor Swydd Gaerloyw

- **Gwobr Codwr Arian y Flwyddyn:**
Karen Ramsey, Pwyllgor Ynys Manaw

- **Gwobr Cyflawniad Oes:**
Stuart Rawlins, aelod o Fwrdd Cynghori a Chadeirydd Pwyllgor Essex

- **Gwobr Gorfforaethol y Prif Swyddog Gweithredol:**
Prosiect VOW, Yr Alban

CrimeStoppers. Volunteer Awards 2024

# Un elusen, un tîm, gweithio'n well gyda'n gilydd

## Stori Phil, Rheolwr Rhanbarthol, am stomâu a stoiciaeth

Nid yw canser fyth yn newyddion da, ond gwaetha'r modd, mae'n gyffredin. Mae Cymorth Canser Macmillan yn dweud wrthym y bydd un o bob dau yn cael diagnosis canser yn ystod eu hoes.

Yn ddiweddar, cafodd Phil, Rheolwr Rhanbarthol Dwyrain Lloegr Crimestoppers, ei gyswllt ei hun gyda chanser. Mae bellach yn cael ysbaid o wellhad, ac mae'n rhannu ei ddoethineb a'i ddirnadaeth o'i daith er mwyn gwella.

36 awr ar ôl dihuno un bore a methu mynd i'r tŷ bach (a oedd yn anarferol iddo), nid oedd chwant bwyd o gwbl ar Phil a dim ond darn bach o fisgïen y gallai ei fwyta. Gan nad oedd yn teimlo'n iawn, ffoniodd ei feddyg. Mae Phil yn dweud wrthym: "Yn sydyn, dros gyfnod o ychydig oriau, roeddwn wedi mynd o sefyllfa lle nad oedd gennyf unrhyw boen, i ddioddef poen difrifol yn fy stumog ac euthum i'r adran damweiniau ac achosion brys – ond roeddwn mor flinedig fel fy mod wedi penderfynu mynd gartref i gysgu, ac osgoi aros yno am 7 awr."

Ffoniodd ei feddyg eto y diwrnod wedyn: "Hap a damwain oedd fy mod wedi siarad gyda meddyg a arferai weithio mewn ward y colon a'r rhefr yn yr ysbyty. Ysgrifennodd lythyr i mi ei roi i'r adran ddamweiniau ac achosion brys er mwyn osgoi gorfod aros."

Yna, cafodd Phil wybod bod ganddo ganser y coluddyn Cam 4, treuliodd 10 diwrnod yn yr ysbyty, a bu'n rhaid iddo gael llawdriniaeth, a bod i ffwrdd o'r gwaith am bedair wythnos.

Ni fu'r driniaeth na'r broses o wella yn un esmwyth. Wrth gael triniaeth imiwnotherapi, darganfu Phil bod y canser wedi tyfu ac wedi lledaenu.

### Cwlwm tynnach

Nid oedd Phil yn mynd i adael i'r canser fod yn drech nag ef.



Priododd ei bartner, Holly, ac roedd y ddau yn benderfynol o drechu'r canser gyda'i gilydd, yn hytrach na "gadael iddo fy nhrechu i" yng ngeiriau Phil.

Mae'r cariad rhwng Phil a'i wraig Holly yn amlwg iawn. Mae'n dweud wrthym ei bod hi wedi bod yn wych trwy gydol y cyfnod.

Ond dim ond wythnos ar ôl priodi, cafodd Phil newyddion drwg eto. Ni fu'r dair driniaeth imiwnotherapi yn llwyddiannus ac roedd y canser wedi lledaenu ymhellach.

Yna o'r diwedd, ychydig newyddion da – ar ôl 14 rownd o gemotherapi, roedd y tiwmorau yn hanner y maint yr oeddent yn flaenorol.

### Rhagolygon tywyll

Wrth baratoi am lawdriniaeth gytohleihaol a gynlluniwyd i waredu'r holl ganser a oedd yn weddill, dywedwyd wrth Phil mai 25% oedd ei siawns o wella, ac roedd y siawns na fyddai'n byw am 3 blynedd i ddathlu ei ben-blwydd yn 40 oed yn 50%.

Mae'n parhau i fod ar ddiet cyfyngedig, rhaid iddo gynllunio ac amserlennu bwyd a dŵr, a chadw golwg ar ei bwysau oherwydd y steroidau y mae angen iddo eu cymryd o hyd.

Gall hyn olygu ei bod yn anodd paratoi pryd rhamantus i ddau, gyda dietau gwahanol iawn. Ond y gobaith yw y bydd y prydau rhamantus hynny yn dychwelyd gan bod llawfeddygon yn gobeithio dadwneud y stoma dros y misoedd nesaf.

### Hiwmor ffraeth

Roedd Phil yn (ac mae'n parhau i fod) yn benderfynol o gael yr angerdd i fod yn eithriad i'r rheol.

Bellach, mae'n cael ysbaid o wellhad, a bu Phil yn gweld ei deulu yn ddiweddar, a oedd yn digwydd bod y tu allan i fwyty yn ysmygu. Chwythodd ei frawd fwg i'w wyneb yn ddamweiniol. Beth oedd ymateb cyflym a ffraeth Phil?

"Beth yw'r peth gwaethaf allai ddigwydd – fy mod yn cael canser?"

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Wrth i ni ystyried dyfodol ein helusen a sut yr ydym yn dymuno bod, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar weithio gyda'r bobl hynny y mae angen iddynt fanteisio ar ein gwasanaethau fwyaf er mwyn codi eu llais mewn ffordd ddiogel.

Er mwyn bod y mwyaf effeithiol, mae angen sylfaen gadarn technoleg modern a phrosesau arnom er mwyn sicrhau ei bod yn hawdd gwneud busnes gyda ni a'n bod yn lle gwych i weithio a gwirfoddoli.

Mae ein hamcanion parhaus fel a ganlyn:

- Gwella ansawdd y wybodaeth y byddwn yn ei hanfon i'r heddlu
- Gwella ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau ymhlith ein defnyddwyr tebygol
- Ymestyn ein partneriaethau a'n rhwydweithiau er mwyn cyrraedd pob cymuned

Mae ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod yn cynnwys:

**Rhoi sylw i argraffiadau'r cyhoedd o'n helusen er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hyder yn ein gwasanaethau, yn enwedig mewn ardaloedd sy'n cael eu heffeithio gan droseddu fwyaf.**

- Canolbwyntio ar gymunedau lle y gwelir lefelau troseddu uchel a lefelau adrodd isel, gyda negeseuon am y ffordd y gall ein helusen helpu
- Cefnogi mentrau ar gyfer cymunedau sy'n cael eu handwyo gan gangiau troseddol cyfundrefnol
- Datblygu dull gweithredu llawn dirnadaeth ac sy'n seiliedig ar ystyriaeth tuag at ymgysylltu ar-lein, gan gynnwys platfformau newydd, er mwyn cyrraedd cynulleidfaoedd newydd
- Darparu rhagor o wybodaeth am y ffordd yr ydym yn gwneud gwahaniaeth, gwella adborth gan yr heddlu a defnyddio ein hastudiaethau achos



**Adolygu cyfeiriad strategol ein helusen er mwyn sicrhau ein bod ar y llwybr cywir i helpu pobl, cymunedau a sefydliadau i godi eu llais er mwyn rhoi stop ar droseddu.**

- Adolygu cynlluniau strategol hirdymor ein helusen, gan wrando ar safbwyntiau a syniadau pawb sy'n buddsoddi yn y gwaith a wnawn
- Gosod bwriadau clir i sicrhau'r gwerth gorau o'r data sydd gennym, gan gynnwys llywodraethu, systemau, diogelwch a diwylliant
- Cychwyn ar gam nesaf ein taith gyda Fearless er mwyn annog rhagor o bobl ifanc i ystyried yr hyn y gallant ei wneud er mwyn helpu i roi stop ar droseddu
- Edrych ymlaen i 2028 a'n pen-blwydd yn 40 oed, gan ystyried sut yr ydym yn dymuno nodi'r garreg filltir hon

**Sicrhau ein bod yn sefydliad hawdd gwneud busnes gyda ni, fel y gallwn, gyda'n partneriaid, helpu i stopio mwy o droseddau.**

- Cynnig llinellau 'codi llais' i ystod ehangach o sefydliadau, fel eu bod yn cael budd gan wybodaeth ddienw am faterion mewnol
- Buddsoddi yn yr offerynnau a'r gwasanaethau fel y gallwn ddarparu'r gwasanaethau gorau ag y bo modd i'n partneriaid
- Gwella ein hofferynnau adrodd am berfformiad a rheoli perthnasoedd fel ein bod yn fwy effeithlon
- Hyrwyddo ein statws elusennol trwy ofyn am roddion yn rheolaidd

**Cael gweithle modern ar gyfer staff a gwirfoddolwyr, gyda'r offerynnau a'r polisïau cywir, fel ein bod yn effeithlon ac yn effeithiol.**

- Parhau i wella ein seilwaith TG er mwyn gwneud defnydd gwell o dechnolegau cydweithio
- Datblygu ein huchelgais i gael timau amrywiol a chynhwysol, gan wella ein gweithgarwch wrth wneud penderfyniadau
- Ehangu cwmpas ein gwaith cynllunio parhad y busnes er mwyn cynnwys yr elusen gyfan a rheoli digwyddiadau posibl mewn ffordd effeithiol
- Cynnig mwy o gyfleoedd i'n pobl feithrin eu sgiliau a'u talentau yn ein helusen, fel y gallant gyflawni rôl hyd eithaf eu gallu

# Uchafbwyntiau CrimeStoppers.

Ebrill 2023 - Mawrth 2024

## Effaith Crimestoppers

**721,162**
o bobl wedi cysylltu â ni yn ddienw

**209,380**
o adroddiadau dienw wedi'u hanfon at heddluoedd

**75%**
ar-lein

**25%**
dros y ffôn

**i fyny 9%**
o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol

## Adborth Crimestoppers

**1,543** wedi'u harestio a'u cyhuddo o ganlyniad i'n gwybodaeth ni

**£1,420,210** Gwerth yr eiddo a adferwyd

**27,676** o ganlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i'n gwybodaeth ni

**£15,212,859** Cyfanswm gwerth y cyffuriau 'ar y stryd'

Mae'r ffigurau yn seiliedig ar adborth partneriaid ac nid ydynt yn adlewyrchu effaith lawn Crimestoppers

## Ymgyrchoedd cenedlaethol a rhanbarthol

**115** o ymgyrchoedd cenedlaethol, rhanbarthol a datblygu'r busnes

**106** Cyfanswm y partneriaethau

**300** o wirfoddolwyr

## Ymgysylltu Crimestoppers

**41**
o wobrau estynedig

**£714,000**

**7,228**
darn o sylw

**£14,716,445**
oedd gwerth y sylw a sicrhawyd

**2 filiwn**
oedd cyfanswm defnyddwyr y wefan, yr oedd

**262,628**
o olygon ar dudalennau straeon newyddion ar y wefan

fearless
Part of Crimestoppers

Llwyddwyd i gyrraedd
**32,881**
o bobl ifanc trwy weithdai Fearless

# Uchafbwyntiau ariannol

Nid y cyfrifon statudol yw'r datganiadau ariannol cryno, ond crynodeb o'r wybodaeth sy'n ymwneud â'r datganiad cyfunol o'r gweithgareddau ariannol a'r fantolen gyfunol o adroddiadau a datganiad ariannol Ymddiriedolwyr yr elusen, wedi'u harchwilio'n llawn, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 24 Gorffennaf 2024. Roedd datganiad yr archwilwyr yn unol â'r hyn a ragnodwyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006 yn ddiamod. Yn dilyn hyn, caiff copïau o'r datganiadau ariannol llawn eu ffeilio gyda'r Comisiwn Elusennau, Swyddfa Rheolydd Elusennau yr Alban a Thŷ'r Cwmnïau. Efallai na fydd y datganiadau ariannol cryno hyn yn cynnwys digon o wybodaeth i gael dealltwriaeth gyflawn o faterion ariannol yr elusen. Mae adroddiad a datganiadau ariannol yr Ymddiriedolwyr, wedi'u harchwilio'n llawn, ar gael ar wefan yr elusen, www.crimestoppers-uk.org, neu gellir gwneud cais i swyddfa ganolog yr elusen am gopi.



**Peter Gaze FCA**
**Ymddiriedolwr**
**24 Gorffennaf 2024**

## Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol

### (Gan gynnwys y cyfrif incwm a gwariant)
### ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

| | Nodiadau | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | Cyfanswm y Cronfeydd 2024 £ | Cronfeydd Anghyfyngedig £ | Cronfeydd Cyfyngedig £ | **Cyfanswm y Cronfeydd £** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | | | |
| Incwm gan weithgareddau elusennol | 1 | 3,972,012 | - | **3,972,012** | 3,625,144 | - | **3,625,144** |
| Rhoddion a chymynroddion | 2 | 1,321,839 | 1,272,617 | **2,594,456** | 1,046,583 | 1,408,600 | **2,455,183** |
| Gweithgareddau masnachu eraill | 3 | 1,155,511 | 1,707 | **1,157,218** | 1,005,292 | 31,745 | **1,037,037** |
| Incwm gan fuddsoddiadau | | 125,243 | - | **125,243** | 19,155 | 2,201 | **21,356** |
| ***Cyfanswm yr incwm a'r gwaddolion*** | | **6,574,605** | **1,274,324** | **7,848,929** | **5,696,174** | **1,442,546** | **7,138,720** |
| **Gwariant** | | | | | | | |
| Gweithgareddau elusennol | 4 | 5,240,473 | 1,426,548 | **6,667,021** | 4,297,085 | 1,383,416 | **5,680,501** |
| Gwariant ar godi arian | 5 | 770,534 | | **770,534** | 821,518 | 157,026 | **978,544** |
| ***Cyfanswm y gwariant*** | | **6,011,007** | **1,426,548** | **7,437,555** | **5,118,603** | **1,540,442** | **6,659,045** |
| ***Incwm/(gwariant) net cyn trosglwyddiadau*** | | **563,598** | **(152,224)** | **411,374** | **577,571** | **(97,896)** | **479,675** |
| Trosglwyddiadau gros rhwng cronfeydd | | (62,602) | 62,602 | - | 77,577 | (77,577) | - |
| ***Incwm/(gwariant) net cyn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill*** | | **500,996** | **(89,622)** | **411,374** | **655,148** | **(175,473)** | **479,675** |
| **Enillion/(colledion) cydnabyddedig eraill** | | | | | | | |
| Elw/(colled) actwaraidd ar gynllun pensiwn â buddion wedi'u diffinio | **17** | - | - | - | - | - | - |
| ***Symud net mewn cronfeydd*** | | **500,996** | **(89,622)** | **411,374** | **655,148** | **(175,473)** | **479,675** |
| **Cysoni Cronfeydd** | | | | | | | |
| ***Cyfanswm y cronfeydd a ddygwyd ymlaen*** | | 2,685,903 | 221,193 | **2,907,096** | 2,030,755 | 396,666 | 2,427,421 |
| ***Cyfanswm y cronfeydd a gariwyd ymlaen*** | | **3,186,899** | **131,571** | **3,318,470** | **2,685,903** | **221,193** | **2,907,096** |

Mae'r holl symiau yn deillio o weithgareddau sy'n parhau.

Nid oes unrhyw enillion neu golledion cydnabyddedig eraill ac eithrio'r rhai a nodir uchod.

# Datganiad yr Archwilydd

# Datganiad yr Archwilydd Annibynnol i Aelodau Ymddiriedolaeth Crimestoppers

### Adroddiad yr archwilydd annibynnol ar y Datganiadau Ariannol Cryno

Mae'r datganiadau ariannol cryno sy'n cyd-fynd â hwn, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, yn deillio o ddatganiadau ariannol wedi'u harchwilio Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Mynegom farn archwilio ddiamod am y datganiadau ariannol hynny yn ein hadroddiad dyddiedig 13 Medi 2024. Nid yw'r datganiadau ariannol hynny, a'r datganiadau ariannol cryno, yn adlewyrchu effeithiau digwyddiadau a ddigwyddodd ar dyddiad ein hadroddiad ar y datganiadau ariannol hynny.

Nid yw'r datganiadau ariannol cryno yn cynnwys yr holl ddatgeliadau sy'n ofynnol dan "Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau: Datganiad o Arfer a Argymhellir, sy'n berthnasol i elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (FRS 102)" (effeithiol o 1 Ionawr 2019). Felly, nid yw darllen y datganiadau ariannol cryno yn gallu cymryd lle darllen datganiadau ariannol archwiliedig Ymddiriedolaeth Crimestoppers.

### Cyfrifoldeb ymddiriedolwyr dros y Datganiadau Ariannol Cryno


Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol cryno yn unol â chyfraith berthnasol y Deyrnas Unedig ac argymhellion y SORP elusennau.

### Cyfrifoldeb yr Archwilydd

Ein cyfrifoldeb yw mynegi barn am y datganiadau ariannol cryno ar sail ein gweithdrefnau, a gynhaliwyd yn unol â Safon Archwilio Rhyngwladol (ISA) 810, "Ymgysylltiadau i Adrodd am Ddatganiadau Ariannol Cryno."

### Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol cryno sy'n deillio o'r datganiadau ariannol archwiliedig ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr o Ymddiriedolaeth Crimestoppers ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 yn gyson, ym mhob ystyr perthnasol, gyda'r datganiadau ariannol hynny.



**David Hoose**
(Archwilydd Statudol Uwch)

dros ac ar ran Forvis Mazars LLP
Cyfrifwyr Siartredig ac
Archwilydd Statudol
6 Sutton Plaza, Sutton Court Road,
Sutton, Surrey, SM1 4FS

Dyddiad: 13 Medi 2024

# Diolch i'n partneriaid a'n cefnogwyr

Mae ein gwaith yn dibynnu ar gymorth hollbwysig ymddiriedolaethau, sefydliadau, cymuned gorfodi'r gyfraith, a'n partneriaethau gyda'r sector cyhoeddus a masnachol.  Trwy rannu ein gwerthoedd, maent yn helpu i hyrwyddo proffil cyhoeddus ein helusen i gynulleidfaoedd newydd sy'n gallu cael budd o'n gwasanaeth unigryw.



## Ymddiriedolaethau a Sefydliadau

- Ymddiriedolaeth Elusennol Beaverbrook
- Sefydliad Bestway
- Ymddiriedolaeth Elusennol Carew
- Ymddiriedolaeth City Bridge
- Cyngor Sir Durham
- Ymddiriedolaeth Elusennol Gilbert ac Eileen Edgar
- Cronfa Strydoedd Mwy Diogel y Swyddfa Gartref
- Ymddiriedolaeth Ingram
- Ymddiriedolaeth Teulu Mather
- Ymddiriedolaeth Elusennol G M Morrison
- Ymddiriedolaeth Elusennol Peacock
- Sefydliad Percy
- Ymddiriedolaeth Elusennol Sylvia a Colin Shepherd
- Ymddiriedolaeth Elusennol Mr a Mrs T C S Haywood

# Diolch i’n partneriaid a’n cefnogwyr



**Partneriaethau**

- Abri
- Altia
- Amazon
- Cymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu
- B&Q/Screwfix
- Barnardo’s Yr Alban
- BASE Llu’r Ffiniau
- Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain
- Gwasanaethau Diogelwch Carlisle
- CSI (Crime Stoppers Rhyngwladol)
- Comisiwn Etholiadol
- Bwrdd Criced Cymru a Lloegr
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- EPC-UK
- ESRI
- Federation Against Copyright Theft (FACT)
- Safonau Bwyd Yr Alban
- Rheoleiddiwr Gwyddor Fforensig
- Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Gweithwyr
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF
- Cyllid a Thollau EF
- imabi
- Gorfodi Mewnfudo
- Sefydliad Safonau y Wasg Annibynnol
- Biwro Twyll Yswiriant
- Swyddfa Eiddo Deallusol
- Llywodraeth Ynys Manaw
- Liberty
- Link ATM
- Long Clawson Dairy
- Gwasanaeth Heddlu Llundain
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Morrisons
- Muller
- Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Partneriaeth Gostwng Troseddau Seilwaith Cenedlaethol
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Next
- Awdurdod Gwrth-dwyll GIG
- GIG Yr Alban
- Openreach
- Peoplesafe
- Port Safe
- Railway Distribution Group
- Retail Energy Code Company
- Ring
- Y Post Brenhinol
- Achub y Plant
- Awdurdod y Diwydiant Diogelwch
- Sky
- Hufenfa De Arfon
- Thames Water
- Tideway
- UK Sport
- UKAD
- Viva Street
- William Hill

**Llinellau Uniondeb yr Heddlu:**

- Swydd Bedford
- Swydd Caergrawnt
- Swydd Gaer
- Swydd Derby
- Dyfnaint a Chernyw
- Dyfed-Powys
- Gibraltar
- Swydd Gaerloyw
- Manceinion Fwyaf
- Guernsey
- Swydd Hertford
- Ynys Manaw
- Taleithiau Jersey
- Caint
- Swydd Gaerlŷr
- Glannau Mersi
- Gwasanaeth Heddlu Llundain
- Y Weinyddiaeth Amddiffyn
- Gogledd Cymru
- Northumbria
- Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon
- De Cymru
- Swydd Stafford
- Dyffryn Tafwys
- Swydd Warwig
- Gorllewin Mersia
- Gorllewin Swydd Efrog
- Wiltshire

**Firestoppers gyda Gwasanaethau Tân ac Achub:**

- Cleveland
- Swydd Durham a Darlington
- Swydd Derby
- Essex
- Humberside
- Caint
- Swydd Northampton
- Swydd Nottingham
- De Swydd Efrog
- Tyne & Wear

**Safonau Masnach:**

- Manceinion Fwyaf
- Caint a Medway
- Cymru

**Gwasanaeth Codi Llais FRS:**

- Swydd Bedford
- Cymbria
- Dorset a Wiltshire
- Dwyrain Sussex
- Essex
- Swydd Gaerloyw
- Manceinion Fwyaf
- Humberside
- Swydd Lincoln
- Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Norfolk
- Swydd Northampton
- Gogledd Swydd Efrog
- De Cymru
- Suffolk
- Surrey

# Gwybodaeth gyfreithiol a gweinyddol

## Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr

### Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr

- Arglwydd Ashcroft KCMG PC

### Ymddiriedolwyr

- Arglwydd Choudrey CBE
- Mr Peter Clarke CVO OBE QPM
- *Ms Angela Entwistle
- Ms Ceris Gardner
- Mr Peter Gaze FCA
- Mr Bill Griffiths CBE BEM QPM
- Mr Stewart Harris FCA
- Mr Martin Hewitt CBE QPM
- Ms Suzanne Jacob OBE
- *Mr Michael Laurie CBE
- *Mr Barry Mizen MBE
- Mr Nick Ross CBE
- Mr Stephen Rubin OBE
- Syr Paul Stephenson QPM

## Bwrdd Cynghori

Mae Cyfarwyddwyr Ymddiriedolwyr a swyddogion y nodir * wrth ymyl eu henw yn gwasanaethu ar y Bwrdd Cynghori, ynghyd â'r canlynol:

- Mr Phil O'Shea
  Dirprwy Gadeirydd ac Aelod AB dros Ogledd Iwerddon a'r Ynysoedd (Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel)
- Miss Jane Antrobus
  Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr
- Mr Bill Cullen
  Cynrychiolydd Rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr
- Mrs Nina Dawes
  Cynrychiolydd Rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr
- Mr John Dobbin
  Cynrychiolydd Swydd Efrog a Humberside
- Mr Jonathan Hamill
  Cynrychiolydd Rhanbarth Gogledd Ddwyrain Lloegr
- Mr Stuart Rawlins
  Cynrychiolydd Rhanbarth Dwyrain Lloegr
- Mr Peter Rolington
  Cynrychiolydd Rhanbarth De Lloegr

## Swyddogion Uwch

- *Mr Mark Hallas OBE, Prif Weithredwr
- *Mr Stephen Mann, Cyfarwyddwr Cyllid, Ysgrifennydd Cwmni
- *Mr Michael Duthie, Cyfarwyddwr Gweithrediadau
- *Ms Karen Ogborn, Pennaeth y Staff

## Bancwyr

The Royal Bank of Scotland plc
280 Bishopsgate, Llundain, EC2M 4RB

## Archwilwyr

Forvis Mazars LLP
6 Sutton Plaza, Sutton Court Road,
Sutton, Surrey, SM1 4FS

## Cyfreithwyr

Bates Wells,
10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1BE

## Statws

Sefydlwyd Ymddiriedolaeth Crimestoppers gan Weithred Ymddiriedolaeth ar 20 Hydref 1986 ac fe'i cofrestrwyd gan y Comisiwn Elusennau, a ddaeth i rym ar 4 Tachwedd 1987. Ar 1 Ebrill 2005, trosglwyddwyd yr ymgymeriad cyflawn dros Ymddiriedolaeth Crimestoppers i gwmni cyfyngedig trwy warant, Rhif Cwmni 05382856, sy'n elusen gofrestredig ei hun, Rhif 1108687 (Lloegr) a Rhif SC037960 (Yr Alban). Mae swyddfa gofrestredig yr elusen yn 10 Queen Street Place, Llundain, EC4R 1BE.

Cyfeiriad y brif swyddfa yw Blwch Post 324, Wallington, SM6 6BG.


Crime never sleeps.
Neither do we.
Keeping communities safe.
24/7, 365 days a year.
Anyone can contact our charity
with information on crime,
over the phone or online.
100% anonymously.
crimestoppers-uk.org
Registered Charity No. 1108687 (England and Wales) No. SC037960 (Scotland)
Company No. 05382856
CrimeStoppers.
0800 555 111
100% anonymous. Always.